


# Peryglon lifddwr

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn benodol pwnc llifogydd, a'r peryglon a ddaw yn ei sgil.



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ym mhob rhan o'i waith. Mae hyn yn golygu gwarchod yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella lles Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

## Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd dysgwyr yn gallu:

- Dangos ble maen nhw ar hyn o bryd ar fap
- Dweud a ydyn nhw mewn parth llifogydd neu os oes unrhyw lifogydd yn digwydd yn eu hardal leol
- Rhestru rhai cydrannau o lifddwr ac esbonio pam maen nhw'n beryglus
- Trosglwyddo'r neges arhoswch allan o lifddwr

**Amser sydd ei angen ar  
gyfer y gweithgaredd**  
25 munud

## Lleoliad

Unrhyw leoliad

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

## CA2 Daearyddiaeth

Dangos ble mae lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

1. Nodi a dangos ble mae lleoedd ac amgylcheddau drwy ddefnyddio globau, atlasau a mapiau

Deall lleoedd, prosesau ac amgylcheddau

3. Disgrifio achosion a chanlyniadau'r ffyrdd mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid

Ymchwilio

Arsylwi a gofyn cwestiynau am le, amgylchedd neu fater daearyddol, e.e. Pam mae llifogydd yn digwydd yno?

## Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Iechyd a lles emosiynol

Deall pa mor bwysig yw diogelwch personol

## CA3 Daearyddiaeth

Dangos ble mae lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

1. Dangos ble mae lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau
2. Defnyddio mapiau, cynlluniau a lluniau o fathau a graddfeydd gwahanol a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â lleoliad

Deall lleoedd, prosesau ac amgylcheddau

2. Esbonio achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n perthyn i'w gilydd

Astudio

Y byd peryglus

## Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Dinasyddiaeth Weithgar

Deall materion lleol a byd-eang amserol

## Cyfarpar ac adnoddau

- Taflen wybodaeth: Beth sydd mewn llifddwr?
- Llwyau
- Cerrig, concyrs neu rywbeth tebyg
- Paent o sawl lliw gwahanol
- Pridd
- Darnau bach o sbwriel

## Beth i'w wneud

- Esboniwch i'r dysgwyr fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd â pherygl o lifogydd yn ymwybodol o beryglon llifogydd a sut i baratoi am lifogydd.
  - Edrychwch ar enghraifft o lifogydd lleol. (Dewch o hyd i luniau a ffeithiau lleol i'w hastudio a'u trafod).
  - Nodwch a ydych chi mewn parth llifogydd ar hyn o bryd. Mae mapiau ar gael ar wefan CNC: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy>
  - Rhannwch yn grwpiau bach o 4 neu 5 a rhowch bot bach neu gwpan yr un iddyn nhw.
  - Esboniwch i'r dysgwyr fod llawer o beryglon yn gysylltiedig â llifddwr. Gan gyfeirio at y daflen wybodaeth *Beth sydd mewn llifddwr*, cwestiynwch y dysgwyr a defnyddiwch ffon fetr i dynnu sylw at y ffeithiau sy'n cael eu trafod e.e. mae 15cm/6 modfedd o lifddwr cyflym yn gallu llorio person.
  - Gofynnwch i'r dysgwyr i feddwl pa liw maen nhw'n disgwyl i lifddwr fod a pham? Sut byddai'n wahanol i ddŵr glân?
  - Gofynnwch iddyn nhw pa bethau drwg gallen nhw ddod o hyd iddyn nhw mewn llifddwr. Trafodwch y peryglon sy'n gysylltiedig â phob awgrym. Yna ychwanegwch y peth drwg hwn (neu rywbeth sy'n ei gynrychioli) at bob un o botiau'r disgyblion.
  - E.g. **Paent glas** - pethau fyddai'n gallu llygru'r amgylchedd - olew, petrol  
**Paent coch** - cemegyn niweidiol o ddŵr ffo diwydiannol neu amaethyddol  
**Paent brown** - bacteria o garthion  
**Paent gwyn** - llaeth  
**Llwyaid o bridd, silt a thywod** - pethau/sbwriel
  - Esboniwch fod y pethau a'r cemegion yn symud o gwmpas wrth i'r llifddwr symud. Gallwch chi roi llwy iddyn nhw i droi'r dŵr yn eu potiau.
  - Esboniwch ei bod hi'n anodd iawn gweld pethau pan mae llifddwr yn mynd i mewn i adeilad ond ei fod hefyd yn gallu achosi i bethau symud o un lle i'r llall. Felly, hyd yn oed os ydyn nhw'n adnabod ystafell neu le yn dda iawn, os bydd llifogydd rhaid iddyn nhw osgoi mynd i mewn i'r dŵr rhag ofn iddyn nhw gael anaf neu fynd yn sownd oherwydd y pethau dydyn nhw ddim yn gallu eu gweld o dan yr arwyneb.
  - Er mwyn atgyfnerthu'r neges, gofynnwch iddyn nhw beth bydden nhw'n ei wneud pe baen nhw'n diuno ac yn gweld bod llifddwr wedi dod i mewn i'w cartref.
- Cwestiynau allweddol posibl**
- A yw hi'n iawn i gerdded mewn llifddwr?
  - Pa beryglon allai fod?
  - A fydddech chi'n gallu gweld eich traed?
  - Yn eich barn chi, pa bethau drwg fyddai'n gallu bod mewn llifddwr?
  - Beth bydddech chi'n ei wneud pe baech chi'n diuno ac yn gweld bod llifddwr wedi dod i mewn i'ch cartref?
  - Sut y gallai llifogydd effeithio ar ecosystemau

## Addasu ar gyfer anghenion/ galluoedd gwahanol

### Llai galluog

- Defnyddiwch botel fawr a dangoswch yr un broses ym mlaen y dosbarth gan ddefnyddio gwirfoddolwyr.
- Wrth feddwl am yr hyn sydd mewn llifddwr, rhowch fwy o gymorth ac awgrymiadau i arwain y dysgwyr tuag at yr atebion. Cadwch y rhestr yn syml.

### Mwy galluog

- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar fapiau a dangos ardaloedd gwahanol, e.e. ble maen nhw, parthau llifogydd. A ydyn nhw mewn parth llifogydd neu'n agos at un? Pa nodweddion allant eu gweld? Ysgrifennwch gyfeirnodau grid ar gyfer pob un.
- Ceisiwch roi mwy o wybodaeth am y sylweddau sydd mewn llifddwr a'r peryglon maen nhw'n eu hachosi. Gallai hyn gynnwys trafodaeth fwy manwl am o ble daeth y llygryddion a pham maen nhw'n fwy tebygol o fod yn y dŵr mewn llifogydd. Gweler y daflen *Beth sydd mewn llifddwr?* i gael rhagor o fanylion.
- Trafodwch pa lygryddion a allai fynd i lifddwr o safleoedd diwydiannol, ffermydd ac ati ac o'r ardal oddi amgylch.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

Rhowch gynnig ar y gweithgaredd *Paratoi am llifogydd*.



## Gwybodaeth ychwanegol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Swyddogion Ymgysylltu Ymwybyddiaeth Llifogydd sy'n gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd. Maen nhw'n gweithio i greu cymunedau cadarn drwy gefnogi cymunedau daearyddol i gymryd camau cadarnhaol i baratoi am lifogydd. Mae'r camau hyn yn cynnwys cofrestru i gael rhybuddion llifogydd am ddim, bod yn arweinydd ar ran y gymuned a datblygu cynlluniau llifogydd ar gyfer unigolion, ysgolion, cartrefi a busnesau.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan CNC:  
<https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy>  
neu e-bostiwch ni:  
[addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)



Fformat arall, print mawr neu iaith arall, cysylltwch ag:  
[enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
0300 065 3000

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®. Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®.



Angraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgychu 100%  
Printed on Revive offset 100% recycled paper